# Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

**2020 dccc 3**

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin mewn perthynas â rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru; ac at ddibenion cysylltiedig. [20 Mawrth 2020]

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## 1 Diddymu amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin

(1) Mae amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin wedi ei ddiddymu mewn perthynas â rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru.

(2) Yn unol â hynny, ni chaniateir cyfiawnhau rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru mewn unrhyw achos sifil neu droseddol ar y sail ei bod yn gyfystyr â chosb resymol.

(3) Ni chaniateir ychwaith gyfiawnhau rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru mewn unrhyw achos sifil neu droseddol ar y sail ei bod yn gyfystyr ag ymddygiad derbyniol at ddibenion unrhyw reol arall yn y gyfraith gyffredin.

(4) At ddibenion yr adran hon, ystyr "cosb gorfforol" yw unrhyw guro (yn yr ystyr sydd i "battery" yn y gyfraith gyffredin) a wneir fel cosb.

(5) Yn adran 58 o Ddeddf Plant 2004 (p. 31) (cosb resymol)—

- (a) yn is-adran (1), ar ôl "battery of a child" mewnosoder "taking place in England",
- (b) yn is-adran (3), ar ôl "Battery of a child" mewnosoder "taking place in England", ac
- (c) mae'r pennawd yn newid i "Reasonable punishment: England".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar 21.3.2022, gweler **a. 5(2)**

## 2 Hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd bod adran 1 yn dod i rym

Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau cyn i adran 1 ddod i rym er mwyn hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newidiadau i'r gyfraith sydd i'w gwneud gan yr adran honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 2 mewn grym ar 21.3.2020, gweler **a. 5(1)**

## 3 Gofynion adrodd

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio dau adroddiad ar effaith y newidiadau i'r gyfraith a wneir gan adran 1.

(2) Rhaid llunio'r adroddiad cyntaf cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r cyfnod o 3 blynedd, sy'n dechrau pan ddaw adran 1 i rym, ddod i ben.

(3) Rhaid llunio'r ail adroddiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r cyfnod o 5 mlynedd, sy'n dechrau pan ddaw adran 1 i rym, ddod i ben.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl llunio adroddiad o dan yr adran hon—

(a) gosod yr adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a

(b) cyhoeddi'r adroddiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 3 mewn grym ar 21.3.2020, gweler **a. 5(1)**

## 4 Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol etc. drwy reoliadau

(1) Caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dod ag adran 1 i rym.

(2) Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan is-adran (1) yn arferadwy drwy offeryn statudol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 4 mewn grym ar 21.3.2020, gweler **a. 5(1)**

## 5 Dod i rym

(1) Daw'r adran hon ac adran 2, adran 3, adran 4 ac adran 6 i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw adran 1 i rym pan ddaw'r cyfnod o 2 flynedd sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol i ben.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 5 mewn grym ar 21.3.2020, gweler **a. 5(1)**

## 6 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** A. 6 mewn grym ar 21.3.2020, gweler **a. 5(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020.